"GOFALU AM IECHYD"

CYNHADLEDD PLANT YNG NGHYMRU

6 Tachwedd 2003

Adroddiad y Gynhadledd

Cynnwys

	Tudalen
Diolchiadau	**3**
Areithiau'r Gynhadledd	
Sylwadau Agoriadol y Cadeirydd	**4**
Y Cyd-destun Strategol Cenedlaethol Jane Hutt, Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cynulliad Cymru	**6-11**
Y Cyd-destun Strategol Lleol Gary Birch, Cyfarwyddydd Gwasanaethau Cymdeithasol. Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen	**12-13**
Y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol a Phlant dan Ofal Janet Williams, Nyrs Ddynodedig (Amddiffyn Plant), GICC	**14-19**
Ansawdd Bywyd Iechyd-Gysylltiedig Plant mewn Gofal Cyhoeddus Dr Alison Maddocks, Paediatregydd Cymunedol Ymgynghorol, Ymddiriedolaeth GIG Abertawe	**20-21**
Mae fy Mywyd yn y Bagiau Bin 'Na Theatr Cat's Paw	**22**
Gweithdai	
Crynodeb, Trafodaeth a Chanlyniadau Gweithdai	**24-29**
Cyflwyniadau Poster	**31**
Cyflwyniad i Lywodraeth Cynulliad Cymru	**32-36**
Atodiadau Atodiad A – Taflen y Gynhadledd Atodiad B – Rhaglen y Gynhadledd	**38-39**

Diolchiadau

Trefnwyd y gynhadledd hon gan Plant yng Nghymru a hoffem ddiolch i'r unigolion a'r sefydliadau dilynol am eu cyfraniadau gwerthfawr i'r gynhadledd:

Archebion a Gweinyddiaeth y Gynhadledd
Plant yng Nghymru – Louise Harries, Lian Williams, Helen Corsi & Graham Roddis

Y Gynhadledd
Diolch i Mike Bosley o Plant yng Nghymru a Dr Alison Maddocks, Ymddiriedolaeth GIG Abertawe am gyd-gadeirio'r digwyddiad a Dr Jo Sibert a gytunodd i gadeirio yn wreiddiol ond a fethodd fod yn bresennol oherwydd salwch. Diolch hefyd i'r holl siaradwyr ac arweinwyr gweithdai, yn cynnwys Jane Hutt, Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cynulliad Cymru; Gary Birch, Cyfarwyddydd Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen; Janet Williams, Nyrs Ddynodedig (Amddiffyn Plant), Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol a gamodd i'r adwy ar y funud olaf yn lle Dr Sharon Hopkins, Cyfarwyddydd Rhanbarthol, Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol a fethodd fynychu oherwydd salwch; Theatr Cat's Paw; Mike Lewis, Plant yng Nghymru; Ruth Talbot, Young Minds; Maraline Jones, Ymddiriedolaeth Gofal Iechyd Gwent; Einir Thomas, Rhwydwaith Maethu Cymru ac Angela Lewis a Joanne Hillman a redodd y gweithdai.

Sylwadau Agoriadol y Gynhadledd

Mike Bosley, Swyddog Datblygu, Plant yng Nghymru

Mae cynhadledd heddiw yn ffurfio rhan o raglen Prosiect "Gofalu am Iechyd" Plant yng Nghymru ac fe'i hariennir am ddwy flynedd drwy Adran Hybu Iechyd Llywodraeth Cynulliad Cymru a'u Cynllun Grant Sector Gwirfoddol Hybu Iechyd. Mae'n brosiect datblygu ymarfer sy'n anelu i helpu i gyflawni amcanion iechyd y fenter Plant yn Gyntaf.

Yn y 18 mis ers dechrau'r prosiect, cododd llu o faterion cymhleth ac anodd ond mae rhai ohonynt yn dod i'r amlwg yn gyson. Y materion allweddol hyn yw:

1.1 Symud i farn mwy cyfannol o iechyd a lles. Adlewyrchir hyn yn y rheoliadau diwygiedig yn gysylltiedig ag asesiadau iechyd, a hefyd yn y ffordd y mae awdurdodau lleol a sefydliadau gwirfoddol yn cymryd perchnogaeth o faterion yr arferid eu gweld fel tiriogaeth llwyr gweithwyr proffesiynol yn y maes iechyd.

1.2 Yr angen cysylltiedig i gydlynu gwasanaethu a datblygu dealltwriaeth ar y cyd – er enghraifft i gytuno ar brotocolau cyfeirio a chyfathrebu ar draws asiantaethau ar draws ffiniau daearyddol a gweinyddol. Rhaid i hyn fod yn ddiwedd i annhegwch mewn argaeledd gwasanaeth yn seiliedig ar sir tarddiad neu breswyliaeth, o fewn a hefyd ar draws ffiniau.

1.3 Rôl a statws gweithwyr gofal plant – yn arbennig gofalwyr maeth a gweithwyr preswyl. Yr ydym angen bod yn glir am yr hyn y dylem fod yn ei ddisgwyl ganddynt a'r hyn y dylent hwy fod yn ei ddisgwyl yn eu tro, a lefel realistig o gefnogaeth yn unol â'r disgwyliadau hyn.

1.4 Mae iechyd meddyliol ac emosiynol yn sefyll allan fel yr un maes penodol lle nad yw gwasanaethau yn cyfateb anghenion. Nid yn unig yng nghyswllt gwasanaethau ar gyfer trin salwch meddyliol, ond yn y materion 'meddalach'. Nid oes adnoddau digonol i helpu plant i ddatblygu gwytnwch, delio gydag ymlyniadau ansicr a hyrwyddo hunan-barch y mwyaf bregus.

1.5 Yn ganolog i hyn y mae'r angen i ddatblygu ffocws trwyadl a holl gynhwysfawr ar blant ac ymrwymiad cynhwysfawr i hawliau plant, ac i roi lle i blant a phobl ifanc wrth ddylunio a datblygu gwasanaeth. Gan fwyaf, mae awdurdodau lleol yn gwneud cynnydd ar hyn, ond mae'r gwasanaethau iechyd ymhell ar ei hôl hi. Rydym angen mwy o ymdrechion i ateb argymhellion adolygiad Carlile yn y cyswllt hwn.

Yr ydym wedi cynllunio rhaglen heddiw o amgylch y materion allweddol hyn a rydym yn arbennig o ddiolchgar am ddiddordeb a chyfranogiad Jane Hutt, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

CYFLWYNIADAU SIARADWYR

Y Cyd-destun Strategol Cenedlaethol

Jane Hutt AC, Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cynulliad Cymru

Mae hon yn gynhadledd bwysig a bydd, gobeithiaf, yn cyfrannu at wella bywydau plant dan ofal yng Nghymru, yn awr ac i'r dyfodol. Hoffwn ddiolch i Plant yng Nghymru am drefnu'r gynhadledd hon a'r siaradwyr a phawb ohonoch am gyfrannu a chymryd rhan.

Byddaf yn gosod y llwyfan drwy siarad am ganlyniadau ar gyfer plant dan ofal, cyn sôn am bolisïau'r Cynulliad a'r ddeddfwriaeth ar faterion iechyd, gan osod y llwyfan polisi ehangach, a dychwelyd i'r cyfarwyddyd y byddwn yn ei gyhoeddi yn fuan a'r canlyniadau y gobeithir amdanynt o heddiw.

Gosod y llwyfan

Mae tyfu i fyny mor ffit ac mor iach ac sy'n bosibl yn allweddol i fedru manteisio ar addysg, hamdden a chwarae ac fel oedolion i gael mynediad i gyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth a byw annibynnol. Ym mhob un o'r agweddau hyn, mae plant dan ofal a gadawyr gofal fel grwp yn gwneud yn wael o gymharu â'u cyfoedion. 44% o adawyr gofal yn 2002 a gafodd neu fwy o TGAU neu GNVQ o gymharu ag ymhell dros 90% o'u cyfoedion, er fod hyn yn welliant amlwg dros y flwyddyn flaenorol, a dim ond tua 50% o adawyr gofal oedd mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth.

Gall yr amgylchiadau achosi trawma i lawer o blant dan ofal, sy'n arwain at iddynt ddod dan ofal. Medrant fod wedi eu hesgeuluso, bod â diet wael a diffyg cyffredinol mewn gofal corfforol ac emosiynol, a maent yn fwy tebygol na'u cyfoedion i fod â salwch neu anabledd cyfyngol tymor hir. Mae adroddiadau cynnydd Plant yng Nghymru ar statws ymadawyr gofal yn 19 oed yn awgrymu fod nifer fawr mewn rhai ardaloedd yn derbyn budd-daliadau oherwydd salwch tymor hir. Ymhellach, gall yr amgylchiadau y mae llawer o blant dan ofal eu cael eu hunain ynddynt ei gwneud yn anos iddynt gyrchu amrediad o wasanaethau iechyd yn cynnwys gwasanaethau iechyd meddwl.

Cydnabyddir hefyd fod pobl ifanc dan ofal yn fregus i ymddygiad cymryd risg, yn cynnwys rhyw anniogel, hunan-anafu, camddefnyddio sylweddau anghyfreithlon a anweddol ac alcohol. Mae'r mathau hyn o ymddygiad cymryd risg cynnar yn ddangosyddion o iechyd meddyliol ac emosiynol gwael a gallant arwain at ddieithrwch cymdeithasol ehangach megis digartrefedd, diweithdra a iechyd meddyliol ac emosiynol gwael.

Y Polisïau

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cytuno ar saith Nod Craidd ar gyfer yr holl wasanaethau yn delio gyda phlant a phobl ifanc. Yn eu mysg mae'r nodau i sicrhau fod pob plentyn yn cael dechrau da mewn bywyd a'r sail gorau posibl ar gyfer eu twf a'u datblygiad yn y dyfodol ac i sicrhau eu bod yn mwynhau'r iechyd corfforol a meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol gorau posibl, yn cynnwys rhyddid o gamdriniaeth, erledigaeth ac ecsbloetiad.

Caiff y nodau craidd hyn eu hadlewyrchu yn rhaglen Plant yn Gyntaf y Cynulliad sy'n anelu i wella cyfleoedd bywyd plant y gofelir amdanynt ymaith o gartref. Amcanion allweddol y rhaglen yw sicrhau fod plant sydd dan ofal yn cael y manteision cyfle bywyd mwyaf posibl o gyfleoedd addysg, gofal iechyd a gofal cymdeithasol, ac i sicrhau fod plant gydag anghenion cymdeithasol penodol yn deillio allan o anabledd neu gyflwr iechyd yn byw mewn teuluoedd neu leoliadau priodol eraill yn y gymuned lle caiff yr anghenion a aseswyd eu hateb a'u hadolygu yn ddigonol.

Bu Plant yng Nghymru yn hybu newid ar draws y sbectrwm o wasanaethau ar gyfer plant dan ofal ac ym meysydd addysg a gofal iechyd mae rhai o'r datblygiadau mwyaf cyffrous. Mewn Addysg, mae cyflwyno trefniadau newydd ar gyfer Cynlluniau Addysg Personol ac ar gyfer athrawon a enwebir mewn ysgolion, gyda chefnogaeth cyfarwyddyd statudol, wedi arwain at ffocws corfforaethol cliriach mewn awdurdodau lleol. Mae gweithwyr proffesiynol ym maes addysg, yn cynnwys athrawon a seicolegwyr addysgol, yn codi pontydd rhwng gwasanaethau cymdeithasol ac awdurdodau addysg ac ysgolion a rhwng gweithwyr cymdeithasol, athrawon a gofalwyr maeth. Mae caffaeliad addysgol yn gwella, mae nifer y gwaharddiadau yn gostwng ac mae presenoldeb uwch gan blant dan ofal.

Mae mynediad i addysg yn cael effaith uniongyrchol ar iechyd a lles plant. Bydd presenoldeb rheolaidd a sefydlogrwydd yn gostwng y risgiau o ddieithriad cymdeithasol a gweithgaredd cymryd risg, a gwella iechyd meddwl ac emosiynol. Mae plant hefyd yn manteisio o weithgaredd hybu iechyd a mynediad i gyfleusterau chwaraeon a hamdden na fyddai efallai ar gael iddynt fel arall.

Mewn iechyd, fe wnaeth y diwygiad i reoliadau'r Ddeddf Plant ar leoliad ac adolygiad o achosion plant, a ddaeth i rym ar 1 Ionawr eleni, unioni i rai ac i eraill gyflwyno newid mewn ffocws o'r gwiriad meddygol blynyddol i asesiad mwy holistig o anghenion gofal iechyd y plentyn neu berson ifanc unigol.

Mae'r rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal asesiad iechyd, y llunnir cynllun iechyd ar gyfer y plentyn ac y darperir gwasanaethau gofal iechyd addas yn ystod lleoliad. Mae hyn yn cynnwys gofal a thriniaeth meddygol a deintyddol a chyngor ac arweiniad ar faterion iechyd, gofal meddygol a deintyddol a hybu

iechyd. Mae'r newid hwn mewn ffocws wedi arwain at ddrafft gyfarwyddyd cynnar ar Iechyd Plant dan Ofal.

Mae iechyd da yn mynd tu hwnt i fynediad i wasanaethau iechyd. Mae gwell canlyniadau iechyd ar gyfer plant dan ofal yn galw am ffocws ar hybu iechyd a sylw i ffactorau amgylcheddol yn ogystal ag anghenion iechyd corfforol, emosiynol a iechyd. Mae angen i blant wybod sut i gyrchu gwasanaethau ac i gael yr wybodaeth a'r sgiliau i gyfathrebu a chysylltu gydag eraill a chymryd cyfrifoldeb drostynt eu hunain.

Mewn rhai ardaloedd, mae nyrsys plant dan ofal yn gweithio mewn timau a gaiff eu harwain gan baediatregydd neu feddyg teulu yn arwain chwyldro. Mae llawer mwy o blant yn awr yn cael asesiadau iechyd holistig ac amrediad cynyddol o gefnogaeth bersonol a mynediad i weithgaredd hybu iechyd. Megis gydag addysg, mae'r swyddi newydd yn pontio'r bylchau rhwng gofal cymdeithasol a gwasanaethau iechyd ac yn dod â mwy o ddealltwriaeth o faterion iechyd i weithwyr cymdeithasol ac i ofalwyr.

Mae'r sefyllfa yn dal yn ddarniog fodd bynnag. Un o'r problemau gyda'r hen system oedd gwrthodiad pobl ifanc i fynychu gwiriadau iechyd. Mae ffigurau am y flwyddyn a ddiweddodd 31 Mawrth eleni yn dangos amrediad o ddefnydd o 42% i 91%. Gobeithiaf fod y rhai sy'n llusgo ar ôl yn dysgu o ymarfer mewn man arall ac y bydd gwelliant i adrodd arno yn ffigurau'r flwyddyn nesaf.

Un o'r materion sydd ar ôl yw'r anhawster y soniodd rhai amdano wrth sicrhau y gall plant a leolir y tu allan i ardal awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd Lleol gyrchu gwasanaethau. Ochr arall hyn yw nad yw Byrddau Iechyd Lleol a darparwyr iechyd yn yr ardaloedd hynny lle caiff nifer o blant eu lleoli yn gwybod amdanynt yn aml. Mae'r rheoliadau diwygiedig yn glir. Rhaid i'r awdurdod sy'n lleoli hysbysu nid yn unig y cyrff dynodedig yn yr ardal lle mae'r plentyn yn byw ond hefyd y cyrff cyfatebol yn yr ardal lle lleolir y plentyn a rhaid i bob awdurdod cyfrifol sicrhau y medrir darparu gwasanaethau priodol.

Fel rhan o raglen Plant yn Gyntaf, caiff gwaith ei wneud i helpu i wella argaeledd lleoliadau yn lleol ac i wella dewis a sefydlogrwydd. Bydd canlyniad darnau sylweddol o ymchwil i leoliadau arbenigol, gofal maeth a gofal preswyl i blant ar gael yn fuan a byddant yn trwytho'r gwaith datblygu.

Ond mae llawer iawn y medrir ei wneud yn awr gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol i gynllunio ac i gomisiynu gwasanaethau yn lleol, yn hytrach nag ymateb i argyfyngau mewn achosion unigol. Os medrir cytuno ar becynnau cyllido, fel y cânt yn aml, ar gyfer lleoliadau drud allan o'r ardal, yna dylai fod yn bosibl dod i drefniant i gomisiynu'r gwasanaethau hynny dros gyfnod. Wrth gwrs, mae llawer o symudiad plant ar draws y ffin yn y ddau gyfeiriad a rydym yn gweithio

gydag adrannau'r llywodraeth yn Lloegr i weld os y medrwn i fynd i'r afael â'r materion gyda'n gilydd.

Bydd rhaglen Plant yng Nghymru yn parhau i fod y brif raglen polisi penodol i blant mewn angen, yn cynnwys plant dan ofal. Rwy'n bendant fod arwyddion cynyddol am effeithlonrwydd y rhaglen, a hefyd yr angen i gynnal yr ymdrech i sicrhau fod y newidiadau a wnaed yn ymwreiddio mewn ymarfer ac enillion yn y canlyniadau a sicrhawyd. Rwyf felly wedi penderfynu y bydd grantiau penodol awdurdodau lleol yn parhau am flwyddyn arall a bydd £28 miliwn ar gael y flwyddyn nesaf i sicrhau datblygiad parhaol dan y rhaglen.

Ond nid cyfrifoldeb awdurdod lleol yn unig yw sicrhau'r gwell canlyniadau hyn. Mae Deddf Plant 1989 yn ei gwneud yn glir fod gwella iechyd plant dan ofal yn gyfrifoldeb aml-asiantaeth yn cynnwys awdurdodau lleol a'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Mae'r Ddeddf yn rhoi'r awdurdod lleol ar flaen y gad yng nghyswllt gwasanaethau i blant y mae'n gofalu amdanynt, ond mae hefyd yn nodi cyfrifoldeb clir ar awdurdodau lleol eraill, ac unrhyw awdurdod iechyd i weithredu i'w helpu i gyflawni eu dyletswyddau.

Dylai cynllunio gwasanaeth ar lefel leol, drwy'r Fframweithiau Lleol dros Bartneriaeth a'r gofynion cynllunio Iechyd, Llesiant a Gofal Cymdeithasol ddod â phob diddordeb lleol ynghyd wrth asesu anghenion lleol a phennu'r trefniadau cyllido i gefnogi datblygiad gwasanaethau i ateb yr anghenion hynny. Rwy'n disgwyl i bob partner lleol sicrhau fod cyllid yn adlewyrchu dyletswyddau'r gwahanol bartneriaid i ddarparu gwasanaethau ar gyfer plant dan ofal ac i sicrhau cynaliadwyedd swyddi yn y dyfodol.

Mae'r gwaith dan y rhaglen Plant yn Gyntaf yn ategu ac yn cael ei ategu gan ddatblygiadau polisi eraill. Y Fframwaith Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol ar gyfer plant yw'r prif fyrdwn polisi ar hyn o bryd ar draws iechyd a gofal cymdeithasol i blant. Bydd hyn yn gosod safonau ar gyfer gwasanaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac a gaiff eu trwytho gan ymgyfraniad nifer fawr o fudd-ddeiliaid ac ymgynghoriad helaeth gyda phlant a phobl ifanc a'u teuluoedd neu ofalwyr.

Nod y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, a gyhoeddir er ymgynghori yng nghanol 2004, yw hybu ansawdd a thegwch iechyd a gwasanaethau cymdeithasol i blant a phobl ifanc lle bynnag y maent yn byw yng Nghymru. Bydd y Fframwaith yn dodi'r plant yng nghanol gwasanaethau a thrwy fwy o integreiddiad rhwng asiantaethau yn gwella canlyniadau ar gyfer plant. Mae safonau yn y broses o gael eu datblygu ar gyfer y chwe modiwl sy'n ffurfio'r Fframwaith. Mae un o'r rhain yn canolbwyntio ar blant mewn 'amgylchiadau arbennig, yn cynnwys plant dan ofal a deallaf y byddwch yn nes ymlaen heddiw yn cael cyfle i ystyried y drafft safonau.

Modiwl arall yn y Fframwaith yw datblygu safonau ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc. Yn fy sylwadau agoriadol cyfeiriais at y nifer uchel o broblemau iechyd ymysg plant a phobl ifanc dan ofal. Rhagwelaf y caiff hyn ei gadarnhau yn y dyfodol agos drwy gyhoeddiad astudiaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar nifer problemau iechyd meddwl plant dan ofal yng Nghymru.

Amlygwyd datblygiad cyfraniad gwasanaethau cymdeithasol at CAHMS fel maes datblygu yng nghylchlythyr arweiniad Plant yn Gyntaf ar gyfer 2003-04 ac mae gweithredu'r Strategaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Iechyd yn hanfodol os yw llawer o blant dan ofal i dderbyn yr help y maent ei angen. Mae'r strategaeth yn galw am wasanaethau nad ydynt yn unig yn gyfrifoldeb, neu'n cael eu darparu gan y GIG, ond yn gyfrifoldeb aml-asiantaeth. Dylai gwasanaethau iechyd meddwl cynhwysfawr ar gyfer plant a phobl ifanc gael eu darparu ar y cyd gan y gwasanaethau iechyd, addysg a gwasanaethau cymdeithasol yn y sector cyhoeddus yn cydweithio gyda gwasanaethau anstatudol a sector gwirfoddol. Ym mis Mehefin gofynnwyd i fyrddau iechyd lleol sicrhau eu bod yn comisiynu rhaglen gytbwys o wasanaethau iechyd meddwl ar gyfer pobl ifanc dan 18 oed yn eu hardal tra bydd Comisiwn Iechyd Cymru yn parhau i gomisiynu gwasanaethau arbenigol ar gyfer y plant a'r bobl ifanc hynny sydd â'r anghenion iechyd meddwl mwyaf cymhleth.

Caiff y safonau Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol eu datblygu mewn partneriaeth gyda phlant a phobl ifanc a'u theuluoedd, drwy un o ymgynghoriadau mwyaf Cymru. Nid oedd llawer o blant a phobl ifanc yr ymgynghorwyd â hwy yn hapus gyda'r gwasanaeth iechyd gan gwyno yn neilltuol am ddiffyg parch a dealltwriaeth iddynt gan rai gweithwyr iechyd proffesiynol. Mae plant eisiau cael eu parchu, i weithwyr iechyd proffesiynol wrando arnynt a'u cymryd o ddifrif. Fel y dywedodd un person ifanc

"Pam na wna'n nhw wrando a siarad yn hytrach na dim ond tuchan"

Rwy'n sicr mai un o lwyddiannau'r trefniadau newydd a gyflwynwyd mewn llawer o ardaloedd yng Nghymru yw fod gweithwyr iechyd proffesiynol yn agos atoch, eu bod yn gwrando a'u bod yn rhoi y math o gymorth a chefnogaeth y mae plant a phobl ifanc ei angen a'i eisiau.

Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyhoeddi ei gyfarwyddyd, y bu llawer o aros amdano, ar wella iechyd Plant dan Ofal yn y gofal iechyd. Bydd y cyfarwyddyd yn cwmpasu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu a hyrwyddo iechyd plant dan ofal, a rolau a chyfrifoldebau asiantaethau wrth gynllunio a darparu gofal iechyd da o fewn fframwaith asesu, cynllunio ac adolygu anghenion iechyd plant dan ofal. Bydd yn trafod materion o gyfrinachedd, caniatad a rhannu gwybodaeth, yn rhy aml y creigiau y mae gwaith rhyngasiantaethau yn taro yn eu herbyn.

Bydd y cyfarwyddyd yn sylfaen i ddatblygiad system effeithlon a hyblyg i drafod anghydraddoldeb iechyd ac asesu anghenion iechyd, i gael a rheoli gwybodaeth sydd ei angen i gynhyrchu cynlluniau iechyd unigol ac i'w gwneud yn bosibl gweithredu'r cynlluniau hyn.

Un o ganlyniadau cynhadledd heddiw fydd adroddiad i Lywodraeth Cynulliad Cymru i drwytho datblygiad y cyfarwyddyd y byddwn yn ei gyhoeddi yn y Flwyddyn Newydd.

I grynhoi

Mae'r canlyniadau ar gyfer plant dan ofal a gadawyr gofal yn wella, ond maent yn yn wael o gymharu â'u cyfoedion. Mae bod yn ffit ac yn iach yn allweddol i fedru cyrchu cyfleoedd eraill mewn bywyd. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi dodi polisïau, deddfwriaeth a threfniadau cynllunio lleol ar waith fydd yn cefnogi datblygu gwasanaethau i blant dan ofal. Mae cyfoeth o brofiad yng Nghymru ac mae enghreifftiau o ddynesiadau llwyddiannus at ymrwymo gyda phlant a phobl ifanc a'u gofalwyr, ond mae rhai ardaloedd yn llusgo ar ôl a rhaid iddynt wneud ymdrech barhaol i wella.

Gobeithiaf y byddwch yn mwynhau cynhadledd heddiw. Rwy'n sicr y bydd yn llwyddiant ac y medrwn, gyda'n gilydd, wella iechyd a llesiant a thrwy hynny ddyfodol y plant yr ydym yn rhieni corfforaethol iddynt: ein plant dan ofal.

Y Cyd-destun Strategol Lleol

Gary Birch, Cyfarwyddydd Gwasanaethau Cymdeithasol,
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Ffocws Plentyn

- Golwg plentyn ifanc o'r byd
- Plentyn gwael iawn
- Gwybodaeth o'r arddegau cynnar
- Newid mewn patrymau
- Diwylliant ieuenctid

Golwg Plentyn Ifanc o'r Byd

"Fedrwn i ddim darllen nes i mi gael mymps, yna roeddwn i'n medru" (Francis Sputtard)

Plentyn Gwael Iawn

"Dwi wedi cael llond bol ar fyw ar flaen y gad gwybodaeth feddygol" (Bridget Sputtard)

Gwybodaeth o'r Arddegau Cynnar

Teimladau cryf, weithiau gwyredig, wrth iddynt ddod yn oedolion; roedd gan fyd plentyndod sicrwydd syml a chalonogol

•Gwybyddol
•Emosiynol
•Ffisegol

Newidiadau mewn Patrwm

•Cynnydd mewn plant dan ofal
•Patrymau ymfudiad
•Diwylliant cyffuriau cenhedlaeth
•Ecsbloetiad Rhyngrwyd
•Traffigio/puteindra

Diwylliant Ieuenctid

•Tlodi a defnyddiaeth
•Ieuenctid – cerddoriaeth - ffasiwn
•Diwydiant byd
•Digysylltiad o normau byd oedolion

Ffabrig Lleoliad

•Byrddau Iechyd Lleol
•Partneriaethau Ffurfiol
•Cyllid Anghydraddoldeb Iechyd
•Plant yn Gyntaf
•Grant Hyblygrwydd

•Patrymau Newydd o Ddefnydd

Nyrs Glinigol Arbenigol (Plant dan Ofal)

•Swydd arbenigol
•Briff eang
•Ffocws ar "ddilyn i fyny"
•Effaith ar archwiliadau meddygol plant dan ofal
•Effaith ar ofal deintyddol

MIST

•Partneriaeth 5-ffordd
•Gyrru gan strategaeth CAHMS
•Targed ar anghenion cymhleth
•Ymyriadau therapiwtig uniongyrchol
•"Cydlynus"

Eraill

•Therapi Galwedigaethol Plant gydag Anableddau
• Tîm Troseddu Iechyd Rhwydwaith Amddiffyn Plant
•Tîm Iechyd Meddwl Gofal Sylfaenol

Casgliad

•Heriau plant dan ofal
•Ffabrig da o ofal, iechyd da
•Cynlluniau penodol
•Ffocws plentyn: rôl gweithwyr proffesiynol

Y Cyd-destun Strategol Lleol

Janet Williams, Nyrs Ddynodedig, Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol

Cyd-destun hanesyddol

Mae'r adolygiad o fesurau amddiffyn ar gyfer plant a phobl ifanc a gaiff ei trin a gofalu amdanynt gan y GIG yng Nghymru 'Peth Rhy Ddifrifol' (Arglwydd Carlile 2002) yn dweud fod rôl amddiffyn plant meddyg a nyrs dynodedig yn weithgareddau iechyd cyhoeddus o ran swyddogaeth ac argymhellodd y dylai Gwasanaeth Amddiffyn Plant GIG Cymru-gyfan reoli rhan amddiffyn plant yr holl broffesiynolion dynodedig ac a enwyd. Dylai'r gwasanaeth yn y pen draw fod yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol gyda grwp rheolaeth un-swydd heb fawr o flaenoriaethau yn cystadlu. Dylai fod Cyfarwyddydd ar y gwasanaeth, ymgynghorydd mewn meddygaeth iechyd cyhoeddus. Dylai fod yn ofynnol i'r Cyfarwyddydd baratoi adroddiad blynyddol ar amddiffyn plant ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol (Argymhelliad 34).

Amlygodd yr adolygiad hefyd ofynion iechyd penodol plant a phobl ifanc dan ofal ac argymhellodd y dylid penodi gweithwyr proffesiynol dynodedig ym mhob ardal i gymryd arweiniad strategol yn narpariaeth gwasanaethau iechyd ar gyfer plant dan ofal (Argymhelliad 38). Yng Nghymru cynigiwyd y dylai'r meddygon a nyrsys dynodedig amddiffyn plant gymryd y rôl hon.

Mabwysiadwyd argymhellion adolygiad Carlile yn 'Gwella Iechyd yng Nghymru: Cynllun i'r GIG a'i Bartneriaid' (Gorffennaf 2002) a ddynododd rôl y gweithwyr proffesiynol dynodedig o fewn y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol arfaethedig (ond nid y proffesiynolion a enwyd). Byddai'r Gwasanaeth yn atebol i'r Prif Swyddog Meddygol am faterion proffesiynol a pherfformiad.

Gweithredwyd y newidiadau o fewn y GIG ar 1 Ebrill 2003. Daeth y Byrddau Iechyd Lleol yn gomisiynwyr gwasanaethau iechyd a chafodd gyfrifoldebau statudol dan Ddeddf Plant 1989. Mae Gwasanaeth Amddiffyn Plant y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol yn cefnogi'r Byrddau Iechyd Lleol i ateb yr oblygiadau hyn.

Wrth gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol ar 25 Mehefin 2003 dywedodd Jane Hutt: "Nodwedd bwysig o'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol yw'r gwasanaeth amddiffyn plant newydd Cymru-gyfan, sy'n cyflawni'r dyletswyddau a neilltuwyd yn flaenorol i'r awdurdod iechyd gan Ddeddf Plant 1989 ac mewn arweiniad dilynol, yn arbennig 'Gweithio gyda'n Gilydd i Amddiffyn Plant'.

Rôl Gwasaneth Amddiffyn Plant y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol – Plant mewn Angen, Plant sydd Angen eu Hamddiffyn a Plant dan Ofal a'r rhai'n Gadael Gofal

Fel a ddangosir yn Ffigur 2 (Promoting the Health of Looked After Children DOH 2002) mae perthynas rhwng rhai poblogaethau o blant mewn angen ac yn hynny o beth bu bob amser yn rhan o rôl proffesiynolion dynodedig i gymryd arweiniad strategol ar gyfer y grwpiau bregus hyn o fewn eu hardaloedd daearyddol.

Dan y trefniadau newydd mae cyfrifoldebau strategol y meddygon a nyrsys dynodedig ar gyfer amddiffyn plant dan ofal ac yn gadael gofal yn parhau ac fe'u cynhwysir yn y cytundebau lefel gwasanaeth gyda'r 22 Bwrdd Iechyd Lleol ar sail Cymru-gyfan.

Figure 2 below demonstrates the relationships between some populations of children in need.



Mae gan y Gwasanaeth Amddiffyn Plant rôl ddatblygu a chefnogol wrth helpu Byrddau Iechyd Lleol i weithredu eu swyddogaethau ac i sicrhau fod gan y Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG system gadarn i weithredu cyfarwyddyd dan Gweithio gyda'n Gilydd a'r cyfarwyddyd arfaethedig yng Nghymru ar gyfer hyrwyddo iechyd plant dan ofal.

Hygyrchedd

Caiff Cyfarwyddydd Cenedlaethol y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Gwladol ei chyflogi gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre ac mae'n gyfrifol i'r Ymddiriedolaeth am berfformiad gweithredol ac ariannol y Gwasanaeth. Yr Ymddiriedolaeth sy'n penodi'r Cyfarwyddydd Cynorthwyol, ond mae'r penodiad angen cydsyniad Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae 3 Cyfarwyddydd Rhanbarthol ac mae Cyfarwyddydd Rhanbarthol De Ddwyrain Cymru yn rheoli Gwasanaeth Amddiffyn Plant y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Gwladol.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn atebol drwy ei Brif Weithredydd i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae Cyfarwyddydd Cenedlaethol y GICC yn atebol yn broffesiynol i Brif Swyddog Meddygol Cymru ac mae'n ofynnol iddi arddangos y cyflawnwyd y gwasanaethau i safonau proffesiynol cydnabyddedig ac yn unol â pholisïau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Rôl y proffesiynolion dynodedig

Rôl y meddyg a'r nyrs dynodedig yw cynorthwyo Byrddau Iechyd Lleol i gyflawni eu cyfrifoldebau fel comisiynwyr gwasanaeth i wella iechyd plant dan ofal. Mae hon yn rôl strategol, ar wahân i unrhyw gyfrifoldebau dros blant a phobl ifanc unigol dan ofal. Dylid gwahaniaethu'r rôl hon o un yr Ymarferydd Arbenigol sydd mewn ymgynghoriad gyda'r cynghorwyr meddygol dros fabwysiadu a maethu yn cymryd arweiniad strategol yn lleol a hefyd yn darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc (gelwir yn nyrs a meddyg dynodedig ar gyfer plant dan ofal yn Lloegr).

Mae Gwasanaeth Amddiffyn Plant y GICC:

- yn darparu cyngor gweithwyr proffesiynol dynodedig i Fyrddau Iechyd Lleol ar faterion cynllunio, strategaeth ac archwilio safonau ansawdd.

- mae Rheolydd Datblygu Mesurau Amddiffyn Gwasanaethau Plant yn cefnogi ac yn cynghori Byrddau Iechyd Lleol ar safonau monitro a pherfformiad gwasanaethau iechyd lleol ar gyfer plant dan ofal.

- yn gweithio gyda Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau GIG, awdurdodau lleol, y sector gwirfoddol a'r elusen gofrestredig 'Plant yng Nghymru' i ddatblygu gwasanaethau i wella iechyd plant dan ofal a'r rhai'n gadael gofal.

- hwyluso hysbysiad gwasanaethau plant pan ddaw plant dan ofal, eu dodi ar gyfer mabwysiadu neu'n newid amgylchiadau.

- datblygu polisïau a gweithdrefnau i sicrhau fod y rhai sy'n darparu gofal iechyd yn ateb anghenion iechyd plant dan ofal ac yn gadael gofal.

- hwyluso hyfforddiant i broffesiynolion iechyd ar anghenion iechyd plant dan ofal a rhai'n gadael gofal.

- cefnogi gwaith ymarferwyr arbenigol drwy ffora rhanbarthol Gwasanaeth Amddiffyn Plant GICC.

Enghreifftiau o Waith a gwblhawyd hyd yma

Gwybodaeth Monitro Adroddiad Waterhouse – Mae Ymddiriedolaethau yng Ngogledd Cymru wedi monitro nifer y plant dan ofal, sy'n hysbys i'r ymddiriedolaethau, ar sail 6 misol am y 2 flynedd diwethaf. Cynhwyswyd ac ehangwyd yr wybodaeth hon yn yr offer Cymru-gyfan ar gyfer monitro mesurau amddiffyn plant sydd ar waith mewn gwasanaethau GIG.

Drafftio fframweithiau mesurau amddiffyn plant i'w defnyddio gan Wasanaethau GIG yng Nghymru. Mae fframwaith yr Ymddiriedolaeth yn cynnwys gwybodaeth yn gysylltiedig â phlant dan ofal a'u hanghenion iechyd yn eu lleoliadau. (Mae gwybodaeth ar bosteri a ddangosir). Bydd y Fframweithiau yn cynorthwyo gwasanaethau plant i ddylanwadu ar y broses Fframwaith Gwasanaeth ac Ariannol, y grwpiau Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc a Chynlluniau Gwasanaeth Plant i ddatblygu gwasanaethau ar gyfer y grwp hwn o blant.

Mae gan y rhan fwyaf o gartrefi preswyl i blant yn y Gogledd bellach nyrs a doctor a ddynodwyd. Ceisir sicrhau isafswm safon o 4 cyswllt y flwyddyn. Cynhwyswyd hwn yn y 'Drafft Isafswm Safon ar gyfer Darpariaeth Gwasanaeth i Gartrefi Preswyl i Blant'. (Mae gwybodaeth ar y posteri). Datblygir hyn fel safon i Gymru-gyfan. Sefydlwyd cysylltiadau gyda'r Arolygwyr Safonau Gofal dros Gymru ac arolygwyr Cartrefi Plant yn y Gogledd.

Ffora Rhanbarthol

Mae Gwasanaeth Amddiffyn Plant GICC wedi sefydlu ffora/pwyllgorau iechyd amddiffyn plant rhanbarthol. Sefydlwyd is-grwpiau Iechyd Plant dan Ofal. Pwrpas yr is grwpiau yw cefnogi'r ymarferwyr arbenigol sy'n gweithio gyda phlant dan ofal a thrwy rannu ymarfer da i ddatblygu gwasanaethau ledled Ewrop. (Mae gwybodaeth y posteri).

Cwblhawyd drafft Gwasanaeth Iechyd Amddiffyn Plant Cymru.

Mae ffora iechyd plant dan ofal a GICC wedi arwain ar ddatblygu 'Hysbysiad Plant yn Dod Dan Ofal a Newid Amgylchiadau: Protocol ar rannu gwybodaeth rhwng yr awdurdod lleol ac asiantaethau iechyd'. Drafft Terfynol Fforwm Amddiffyn Plant Gogledd Cymru yn barod i'w gadarnhau gan 6 awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru. (Gwybodaeth ar y posteri).

Hwyluso Gweithdy Gogledd Cymru 'Iechyd meddwl rhieni a'r effaith ar iechyd a datblygiad plentyn: atal pant rhag dod yn blant dan ofal' (Mai 2003).

Cynhyrchwyd papur trafod 'Asesiadau Iechyd Holistig'. (Gwybodaeth ar yr arddangosiad posteri).

Ffora rhanbarthol a sefydlwyd (Ffigur 3)



Cynllun gwaith

Parhau i gefnogi'r Byrddau Iechyd Lleol wrth gyflawni eu cyfrifoldebau statudol.

Cwblhau Manyleb Amddiffyn Plant Gwasanaeth Iechyd. Proses ymgynghori, i'w chwblhau erbyn mis Rhagfyr.

Gweithdy i ddatblygu arweiniad arfer da ar gyfer gwasanaethau iechyd ar gyfer Plant dan Ofal, ar y gweill ar gyfer 15 Rhagfyr 2003.

Cyflogi 2 o Reolwyr Mesurau Amddiffyn Gwasanaethau Plant i sicrhau gwasanaethau teg ledled Cymru (gweler cyfyngiadau). Datblygu prosesau monitro a gwella safonau.

Cyflogi 2 o Hwyluswyr Hyfforddiant Gofal Sylfaenol ychwanegol i sicrhau tegwch gwasanaethau ledled Cymru (gweler cyfyngiadau). Mae Plant yng Nghymru yn cynnal peth gwaith gyda ni ar ddatblygu cyfranogiad ystyrlon o blant a phobl ifanc yn ein gwasanaeth.

Cyfyngiadau
Maes risg os na chyllidir y 2 reolwyr gwasanaethau plant ychwanegol a'r 2 hwylusydd hyfforddiant ychwanegol. Methu darparu gwasanaeth llawn.

Arbedion 13% i'w gwneud gan GICC o fewn blwyddyn gyntaf gweithrediad. Ni ofynnwyd i GICC gwasanaeth Amddiffyn Plant i dorri gwasanaethau fodd bynnag ychydig o le sydd am dwf heb gyllid ychwanegol.

Ni fedrir cyflawni cyfrifoldebau ychwanegol i ddarparu gwasanaethau iechyd dan y Ddeddf Plant (Gadael Gofal) 2000, newidiadau i'r gyfraith a rheoliadau mabwysiadu a 'r Fframweithiau Gwasanaeth Cenedlaethol yn llawn heb adnoddau digonol.

Ansawdd Bywyd Iechyd-Gysylltiedig Plant mewn Gofal Cyhoeddus

Alison Maddocks, Paediatregydd Ymgynghorol,
Ymddiriedolaeth GIG Abertawe

Adroddiad prosiect i ddatblygu offeryn clinigol ac i asesu ei ddibynadwyedd a dilysrwydd.

A Maddocks[2],P Upton[1], C Eiser[3], PM Barnes[2], L Price[2], C Killa[4]

[1] Ysgol Glinigol, Prifysgol Cymru, Abertawe.
[2] Adran Iechyd Cymunedol Plant, Ymddiriedolaeth GIG Abertawe
[3] Adran Seicoleg, Prifysgol Sheffield.
[4] Ymddiriedolaeth GIG Bro Morgannwg

cyflwyniad

Caiff ansawdd bywyd iechyd-gysylltiedig plant ei gydnabod yn gynyddol fel mesur canlyniad pwysig mewn Paediatreg. Cafodd ei ddefnyddio'n bennaf gyda phroblemau iechyd *corfforol.* Medrid hefyd ddefnyddio mesurau ansawdd bywyd iechyd-gysylltiedig ar gyfer plant gyda phroblemau iechyd emosiynol a nodir yn aml gan blant mewn gofal maeth.

Amcan

Datblygu holiadur hunan-adrodd i fesur ansawdd bywyd iechyd-gysylltiedig plant sydd yn y system gofal ac adroddiad dirprwy cyfochrog ar gyfer gofalwyr.

Dull

Roedd dyluniad yr holiadur yn dilyn model mesur sefydledig. Dewiswyd eitemau drwy broses ailadroddol yn cynnwys adolygiad o ymchwil blaenorol, ymgynghoriad gyda phobl ifanc, peilotio ac adolygu dilynol yr holiadur. Profwyd y fersiwn terfynol ar sampl ar hap (N = 70) o blant a gofalwyr i sefydlu ei nodweddion seicometrig.

Canlyniadau

Awgrymodd dadansoddiad ffactor un raddfa o 19 eitem. Cyrhaeddodd yr eitemau detholedig yr eitem a argymhellir – cyfanswm cydberthynas o 0.4 neu uwch, gan sefydlu cysondeb mewnol y graddfeydd. Cadarnhaodd Alpha Cronbach o 0.87 ar gyfer mesuriadau hunan-adrodd a 9.91 ar gyfer adroddiadau dirprwy. Dangosodd y sgoriau graddfa gydberthynas canolig ond arwyddocaol gyda israddfeydd swyddogaethol emosiynol ar fesur ansawdd bywyd iechyd-gysylltiedig generig (R

Pearson = 0.661 a 0.605, P<0.05 ar gyfer hunan-adroddiad ac adroddiad dirprwy yn y drefn) a gyda graddiad annibynnol o iechyd meddwl (R Pearson = 0.483 ar gyfer hunan-adrodd a 0.464, P<0.05 ar gyfer adroddiad dirprwy) yn sefydlu dilysrwydd strwythur. Cadarnhaodd cydymffurfiaeth ganolig rhwng yr hunan-adroddiad a'r adroddiad dirprwy fod y ddau ffurf yn mesur yr un strwythur. Roedd atgynhyrchedd yn dderbyniol ar gyfer y ddau adroddiad (ICC = 0.685 a 0.651, P<0.05 ar gyfer hunan-adroddiad ac adroddiad dirprwy yn y drefn).

Casgliadau

Mae'r mesur hwn yn cynnig manteision bod yn fyr, hwylustod gweinyddiaeth a dehongliad yn ogystal â sylfaen seicometrig gadarn. Yn ychwanegol, mae paediatregwyr a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio gyda phlant maeth a'u teuluoedd wedi sefydlu dilysrwydd clinigol y mesur. Yn olaf, mae argaeledd ffurfiau cyfochrog ar gyfer plentyn a gofalydd yn caniatáu asesiad cyflawn o ansawdd bywyd iechyd-gysylltiedig y plentyn yng ngofal awdurdodau lleol. Bydd yr offeryn hwn yn rhoi mesur canlyniad gwerthfawr iawn i ni ei ddefnyddio mewn asesiad cyffredinol ac mewn ymchwil gyda'r grwp hwn o blant.
Dangoswyd cysondeb mewnol da mewn pedair allan o bump graddfa (alpha Cranbach > 0.7). Canfuwyd lefelau derbyniol o gydymffurfiaeth plant a gofalydd hefyd ar dri o'r pump is-raddfa. Mae dadansoddiad i sefydlu dilysrwydd pellach a dibynadwyedd ar gyfer y mesur yn mynd rhagddo.

Diolchiadau

Pobl ifanc a'u gofalwyr, WORD; Yr Athro J Williams, M Jenney, J Varni, I Russell, J Walker,Judy, Staff gweinyddol CH Abertawe SS NPT, Sx B.end, Lisa Webb, WC Cheung, S Jackson (Yn cynnwys y rhai a ffurfiodd syniadau ar gyfer y prosiect; hwyluso mynediad i bobl ifanc a'u gofalwyr; cynghori ar gasglu data, caglu data a chyfweld; mewnbwynnu data a dadansoddi canlyniadau, rhoi cefnogaeth, anogaeth a chyngor ac yn olaf, ond nid yn lleiaf, gefnogaeth ariannol).

Geiriau allweddol

Plant dan Ofal, Ansawdd Bywyd, Gofal y Wladwriaeth, Gofal Maeth

"Mae fy Mywyd yn y Bagiau Bin 'Na"

Cyflwyniad gan Theatr Cat's Paw

Wedi'i lunio mewn partneriaeth gydag Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru, cafodd y cyflwyniad theatr fforwm byr hwn ei ddatblygu yn wreiddiol ar gyfer lansiad swyddogol Datganiad Magu Plant Corfforaethol y Cyngor.

Cafodd ei ehangu ers hynny ac fe'i cyflwynwyd mewn ffurf lawnach adeg cynhadledd Partneriaeth Ieuenctid, a dyma'r trydydd tro iddo gael ei berfformio.

Fe'i lluniwyd drwy waith byrfyfyr ac ymchwil o amgylch straeon y bobl ifanc eu hunain, a bortreadwyd gan actorion ifanc yn Theatr Cat's Paw, cwmni theatr fforwm yn seiliedig yn y Twr Cloc ym Mostyn.

Y bwriad tu ôl i'r darn yw rhoi blas ar fywyd a gaiff y rhai sy'n mynd drwy'r system gofal ac i geisio rhoi mewn cyd-destun rai o agweddau y gweithwyr proffesiynol sy'n delio gyda hwy ar sail ddyddiol.

Mae'r teitl yn ddyfyniad gan un o'r bobl ifanc yn ymwneud â datblygu'r darn, gan siarad am ei barn o'i heiddo, a symudwyd yn aml o ofalydd i ofalydd mewn sachau sbwriel plastig.

GWEITHDAI

Nod y Gweithdai

Gofynnwyd i bob gweithdy ddynodi tair neges allweddol ar gyfer ymarfer. Yn neilltuol, gofynnwyd iddynt ddynodi unrhyw faterion allweddol y dylid eu trafod yng nghyfarwyddyd arfaethedig Llywodraeth y Cynulliad ar hyrwyddo iechyd plant dan ofal. Mae'r adroddiadau dilynol yn amlinellu cynnwys y gweithdai a'r negeseuon.

Gweithdy 1

Y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant mewn Amgylchiadau Arbennig

Arweinydd: Mike Lewis, Cyfarwyddydd Polisi Plant yng Nghymru

Nod y gweithdy yw datblygu dealltwriaeth y rhai sy'n cymryd rhan o'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol yng nghyswllt plant a phobl ifanc dan ofal. Mae'r drafft safonau ar y Fframwaith ar gyfer plant mewn amgylchiadau arbennig allan er ymgynghori ar hyn o bryd. Gall y rhai sy'n cymryd rhan archwilio'r drafft safonau a mewnbynnu cynigion polisi ar gyfer y Fframwaith. Byddant hefyd yn medru datblygu eu dealltwriaeth o rôl hanfodol y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol mewn gwella ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gyfer plant a phobl ifanc. Caiff unrhyw adborth a dderbynnir ei fwydo i gam nesaf datblygiad y Fframwaith sy'n anelu i ddatblygu Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol cynhwysfawr ar gyfer plant a phobl ifanc erbyn Rhagfyr 2003. Cytunir ar y Fframwaith erbyn canol y flwyddyn nesaf ac yna ei weithredu yng Nghymru.

Canlyniadau Gweithdy

Nod y gweithdy yw datblygu dealltwriaeth y rhai sy'n cymryd rhan o'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ac ystyried y modiwl ar blant a phobl ifanc mewn amgylchiadau arbennig yn neilltuol yng nghyswllt plant a phobl ifanc dan ofal. Gall cyfranogwyr ystyried y tri safon ar:

1. Gofal canoli ar blentyn
2. Mynediad i ofal
3. Ansawdd gofal a chyfrannu at eu datblygiad.

Materion Allweddol

LLWYBRAU GOFAL

- Mae rôl llwybrau gofal yn hollbwysig a dylai helpu i hyrwyddo ansawdd
- Pa mor aml y caiff llwybrau gofal eu hailasesu
- Mae l wybrau gofal angen rhyw elfen o hyblygrwydd yn nhermau caniatáu dyfarniad proffesiynol cyhyd â bod hyn yn canolbwyntio ar y plentyn

- A gaiff y llwybrau gofal eu cefnogi gan fframwaith cyfreithiol
- Sut y cafodd plant a phobl ifanc eu cynnwys yn ei ddatblygiad

Materion yn gysylltiedig â'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol

- Y Fframwaith i osod targedau ystyrlon
- Roedd teimlad cryf fod angen diffinio'r termau a ddefnyddiwyd o safbwynt plentyn ac nid drwy lygaid oedolion/gweithwyr proffesiynol. Datblygwyd y syniad hwn i ofyn i blant a phobl ifanc feddwl am ganlyniadau pan fo oedolion yn anghytuno am ystyr y termau. Felly gall fod angen peth diffiniadau yn y Fframwaith e.e. hyrwyddo cymunedol
- Yr angen i fonitro anghenion iechyd plant a phobl ifanc dan ofal allan o'r sir a datblygu systemau cadarn Cymru-gyfan ar gyfer hyn
- Dylai'r Fframwaith gefnogi peidio lleoli plant a phobl ifanc allan o'r sir yn y tymor hir wrth i adnoddau arbenigol lleol gael eu datblygu. Ni fyddai ymarferwyr yn hapus pe datblygid adnoddau nad oedd yn canolbwyntio ar anghenion plant a phobl ifanc ac yn canolbwyntio yn lle hynny ar faterion cyllidebol neu ddiddordeb proffesiynol
- Mae angen i'r Fframwaith ddatblygu cyfarwyddyd ar fater cronni cyllidebau/cydgyllido fel bod y prosesau yn gweithio yn yr un ffordd ar draws Cymru. Rhoddwyd tystiolaeth anecdotaidd o sut mae'r broses hon yn gweithio mewn ffyrdd gwahanol yng Nghymru.
- Ni ddylai disgwyl am y sylfaen tystiolaeth olygu nad yw plant a phobl ifanc yn cael triniaeth.

Materion yn gysylltiedig â phlant a phobl ifanc dan ofal sy'n ehangach na'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol:

- Mae angen i'r Fframwaith gael ei chysylltu gyda'r system integredig arfaethedig ar gyfer plant
- Yr angen i ddatblygu gweledigaeth a rennir rhwng pob asiantaeth sy'n gweithio dros blant a phobl ifanc
- Bydd angen i asiantaethau ddiffinio plant a phobl ifanc yn yr un ffordd fel nad oes gwahaniaeth mewn darpariaeth gwasanaeth ledled Cymru
- Beth fydd y broses o ymgynghori ar y Fframwaith unwaith y cyhoeddir ei gam olaf? Soniodd cyfranogwyr am fater sut y cynhwysir plant a phobl ifanc yn y broses ddiweddarach hon.
- Dylai anghenion plant gael eu diwallu gyda dynesiad a arweinir gan sgiliau yn hytrach na gan broffesiynolyn – bydd hyn yn osgoi mater creu pydw mewn darpariaeth gwasanaeth.

Cyflwynwyd y pwyntiau uchod i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn syth ar ôl y gynhadledd fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol.

Gweithdy 2

Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc dan Ofal
Arweinydd: Ruth Talbot, Young Minds

Edrych ar ôl iechyd meddwl plant dan ofal – sut i gefnogi hyfforddiant staff rheng-flaen.

Dengys ymchwil fod gan hyd at 67% o blant a phobl ifanc yng ngofal yr Awdurdod Lleol broblem iechyd meddwl difrifol. Beth bynnag yw ein barn am hyn, rhaid ystyried anghenion iechyd meddwl y grwp hwn o bobl ifanc.

Mae ateb anghenion iechyd meddwl plant dan ofal yn dibynnu ar sgiliau a gwybodaeth eu gofalwyr a'r gweithwyr proffesiynol rheng flaen hynny sy'n eu cefnogi ac yn gweithio gyda hwy. Mae'r gweithdy hwn yn ymchwilio model o hyfforddiant a ddatblygwyd gan wasanaeth hyfforddiant Young Minds a gynlluniwyd i gael ei ddefnyddio gyda grwpiau amlddisgyblaethol o fewn ardal.

Canlyniadau Gweithdy

Negeseuon allweddol:

Mae ateb anghenion iechyd meddwl pobl ifanc yn galw am fuddsoddiad yn ac yn cefnogi staff rheng-flaen i godi eu hymwybyddiaeth o'r mater hwn.

Mae angen cynyddu'r buddsoddiad mewn gweithwyr proffesiynol rheng-flaen ar dair lefel: llwythi achos llai ar gyfer gweithwyr proffesiynol; mwy o gyfleoedd hyfforddiant; arolygaeth gefnogol i weithwyr broffesiynol.

Mae plant angen cynghori mewn ymateb i anghenion iechyd emosiynol nas darperir bob amser o fewn CAMHS ar hyn o bryd.

Materion pwy sy'n darparu cyllid – gwrthdaro o amgylch pwy a ddylai fod yn cyllido hyfforddiant mewn timau aml-ddisgyblaethol.

Gweithdy 3

Beth sy'n gwneud plentyn dan ofal yn iach?
Arweinydd: Maraline Jones, Nyrs Glinigol Arbenigol, Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent

Mae plant a phobl ifanc dan ofal awdurdod lleol dan anfantais mewn nifer o ffyrdd. Cydnabyddir yn eang fod ganddynt ganlyniadau iechyd a chymdeithasol gwaelach a chyfleoedd bywyd gwaeth na phlant eraill. Caiff eu problemau iechyd yn aml eu dynodi neu reoli yn wael ac felly collir cyfleoedd i wella canlyniadau iechyd.

Bydd y gweithdy yn gofyn i gynrychiolwyr ddynodi'r dylanwadau iechyd, addysgol a chymdeithasol sy'n effeithio ar iechyd plant.

Yn y gweithdy hwn fe'ch rhennir yn 3 grwp. Bydd pob grwp yn cymryd rôl un ai blentyn/person ifanc dan ofal yr awdurdod lleol, gofalydd maeth neu weithiwr proffesiynol.

Eich cylch gorchwyl fydd trafod – beth sy'n gwneud plentyn/person ifanc dan ofal yn iach o'r persbectif a ddewisoch?

Bydd pob un o'r tri grwp yn rhoi adborth i eraill. Dilynir hyn gan drafodaeth o debygrwydd a/neu gwahaniaethau a ddynodwyd.

Canlyniadau Gweithdy

Negeseuon allweddol:

Safonau cyffredinol ar gyfer nyrsys, gofalwyr maeth, a hyfforddiant ar gyfer gwasanaethau plant dan ofal.

Recriwtio – mae angen ystyried adnoddau ar gyfer pob plentyn dan ofal. Dylai adnoddau gael eu cyllido drwy addysg, gwasanaethau cymdeithasol ac asiantaethau eraill.

Caniatâd – yn arbennig angen cytundebau i sicrhau caniatâd yn dilyn lleoliadau ar draws ffiniau.

Gweithdy 4

Cydweithio i hyrwyddo iechyd plant dan ofal
Arweinwyr: Einir Tomos, Rhwydwaith Maethu Cymru, Angela Lewis a Joanne Hillman

Nod y gweithdy yw rhoi cyfle i edrych ar gydweithio fel rhieni corfforaethol i ateb anghenion iechyd plant a phobl ifanc dan ofal.

Bydd y prif ffocws ar anghenion iechyd plant dan ofal gyda gofalwyr maeth.

Rhoddir cyflwyniad byr i gyfranogwyr ar fagu plant corfforaethol a'r cyfrifoldebau dros iechyd plant dan ofal a nodir yn yr Isafswm Safonau newydd mewn Maethu a Rheoliad Maethu Cymru 2001.

Gwahoddir cyfranogwyr i gymryd rhan yn y ddau ymarferiad dilynol:

1) Canfyddwyr Barn: Gofynnir i gyfranogwyr am eu barn ar 5 datganiad yn ymwneud ag anghenion iechyd plant dan ofal. Rhennir eu barn a'u sylwadau.
2) Gofynnir i gyfranogwyr drafod 2 astudiaeth achos mewn grwpiau bach. Mae'r astudiaethau grwp yn ffugiannol. Y pwrpas fydd dynodi anghenion iechyd y plentyn yn yr astudiaeth achos, ac edrych ar ffyrdd o gydweithio fel rhieni corfforaethol i ateb anghenion iechyd y plant.

Canlyniadau Gweithdy
Mae angen dweud wrth bob plentyn am y gwasanaethau sydd ar gael. Mae angen i'r wybodaeth fod yn gyfeillgar i'r plant: mae angen i'r plentyn gael copi o gofnodion asesu/gweithredu iechyd.

Mae gwasanaethau iechyd yn anwybyddu plant a safbwynt pobl ifanc. Nid yw rheolwyr yn gwrando a medrai staff ar y ddaear wneud yn well hefyd. Mae angen adborth.

Nid yw iechyd, gwasanaethau cymdeithasol ac addysg yn cydweithio ond deuant ynghyd pan fo problem. Angen canfod ffordd o fynd o'i chwmpas.

Mae angen i blant a phobl ifanc wybod eu cefndir meddygol. Gall fod yn ddefnyddiol iawn iddynt.

Mae pob plentyn a pherson ifanc angen archwiliad meddygol. Caiff plant dan ofal eu trin yn wahanol.

Negeseuon Allweddol:

- Cyfathrebu'n fwy effeithlon
- Hanfodol trosglwyddo gwybodaeth bwysig
- Angen paratoi cyn lleoliad
- Angen polisïau a chanllawiau ar y cyd
- Angen gwell hysbysiad – ni all dim ddigwydd os nad oes neb yn gwybod am y plentyn
- Angen cyfarfodydd aml-asiantaeth

CYFLWYNIADAU POSTER

Trefnwyd cyflwyniadau/arddangosiadau posteri gan:

Lleisiau o Ofal Cymru Cymru - arddangos eu gwefan ar gyfer plant a phobl ifanc dan ofal - www.vfcc.org.uk

Fforwm Plant dan Ofal Gogledd Cymru - cyswllt Janet Williams, GICC, Ffôn: 01352 700227

Arbenigydd CAHMS Plant dan Ofal Ymddiriedolaeth GIG Conwy a Sir Ddinbych – dangos canlyniadau defnyddio holiadur cryfderau a gwasanaethau fel rhan o asesiadau iechyd ar gyfer plant dan ofal – cyswllt John McKenna ar 01745 330881

FPA Cymru – papurau briffio ar iechyd rhywiol ac addysg rhyw ar gyfer plant dan ofal; hyfforddiant a chyngor arbenigol ar faterion iechyd rhywiol – cyswllt 02920 644034

Cyflwyniad y Gynhadledd i Lywodraeth Cynulliad Cymru

Yn dilyn trafodaeth gydag arweinwyr gweithdy, lle'n briodol, cyflwynwyd y dilynol i Lywodraeth Cynulliad Cymru fel rhan o'r gwaith paratoi ar gyfer eu cyfarwyddyd arfaethedig ar hyrwyddo iechyd plant dan ofal.

Argymhellion

Gofynnodd Llywodraeth Cynulliad Cymru y dylid cyflwyno argymhellion o gynhadledd 'Gofalu am Iechyd' i'r cyfarwyddyd arfaethedig ar hyrwyddo iechyd plant dan ofal.

Daw'r argymhellion dilyn o'r sesiynau gweithdy a fabwysiadwyd, lle'n briodol, ar ôl trafodaeth gydag arweinwyr gweithdai.

Nid ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu barn Plant yng Nghymru.

Rhoddir yr argymhellion gan gyfeirio at ddogfen yr Adran Iechyd 'Promoting the Health of Looked After Children' (Tachwedd 2002).

Pennod a Paragraff Cyfarwyddyd	**Argymhelliad**	**Gwybodaeth Ychwanegol**
Cyflwyniad 1.9	Gwneud cyfeiriad at gysylltiadau rhwng y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer plant mewn Amgylchiadau Arbennig a'r System Plant integredig.	
Rolau a chyfrifoldebau Cynghorau		
5.2	Dylai awdurdodau lleol wneud cyfeiriad penodol at gynllunio i ateb anghenion iechyd plant a phobl ifanc dan ofal yn eu Cyfarwyddyd Cynlluniau Gofal Plant. Dylai Llywodraeth y Cynulliad gyhoeddi cyfarwyddyd i'r diben hwn.	Nid yw cyfarwyddyd presennol yn wneud hyn yn ofyniad penodol.
5.5	Dylai awdurdodau lleol gydweithio gydag eraill i wneud y protocolau hyn yn unffurf ar draws ffiniau awdurdodau lleol ac	Mae amrywiad mewn protocolau yn arwain at broblemau neilltuol lle caiff plant eu lleoli allan o'r sir.

	asiantaethau lle bynnag y bo modd. Gall cynhyrchu protocolau fod yn dasg y medrai'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol arwain arno (gweler pennod 6).	Er enghraifft, gall gwahanol awdurdodau lleol fabwysiadu gwahanol sefyllfaoedd parthed cyfreithlondeb rhannu cadarnhad. Gall hyn achosi oedi, dyblygu diangen a methiant i gyflwyno gwasanaethau amserol.
5.8	Os lleolir plant allan o'r sir, dylid gwneud trefniadau i sicrhau, fel isafswm: - fod cofnodion a chaniatâd yn mynd gyda cheisiadau am leoliad - y caiff data plant ei ddodi'n uniongyrchol ar gronfeydd data gwasanaeth plant dan ofal - lle cyfeirir at wasanaethau iechyd drwy Gwasanaethau Cymunedol, fod cyfeiriad ar yr un pryd i wasanaethau plant dan ofal (gweler 6.5 a 2.4 islaw)	Mewn rhai ardaloedd gall cyfeiriadau allan o'r sir eu gwneud drwy Wasanaethau Cymunedol, ac efallai nad oes nodiadau a chaniatâd yn mynd gyda hwy. Mae hyn yn arwain at ddryswch wrth olrhain ac oedi diangen lle mae angen cyfeirio pellach wedyn ar gyfer asesiadau iechyd, ac agweddau eraill o gynllun iechyd.
Rolau a chyfrifoldebau GIG		
6.1	Dylai asiantaethau GIG sicrhau fod ganddynt gynlluniau cadarn gyda adnoddau digonol ar gyfer ateb argymhelliad 1 Adolygiad Carlile y dylai'r holl staff sydd â mynediad at blant fod wedi cael eu hyfforddi mewn hawliau plant. Dylai hyn gynnwys Uwch Reolwyr mewn Ymddiriedolaethau GIG a Byrddau Iechyd Lleol (gweler Argymhelliad 23).	Dylai hyn gael ei ddynodi'n benodol fel rôl y Prif Weithredydd. Bydd canfyddiadau yr adolygiad arfaethedig gan CHI yn trwytho'r broses hon.
6.5 a 6.24	Dylai gweithwyr proffesiynol sy'n gwneud gwaith iechyd wneud hyn ar sail medrusrwydd a sgiliau yn hytrach na proffesiwn (gweler islaw). Rôl y Prif Weithredydd a'r Cyfarwyddydd Dynodedig yw sicrhau fod gan y proffesiynolion	Bwriedir i hyn osgoi ffodd 'pydew' o feddwl yn datblygu rhwng grwpiau proffesiynol, ac i ganiatáu hyblygrwydd mewn darpariaeth patrymau gwasanaeth tra'n cynnal

	y medrau a'r sgiliau angenrheidiol.	ansawdd.
6.9	Dylid gwneud cyfeiriad penodol at rôl a chyfrifoldebau y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol. Dylai hyn gynnwys: - datblygu safonau gwasanaeth - datblygu medrau a sgiliau gofal ar gyfer gwaith iechyd plant dan ofal - datblygu protocolau model ar gyfer rhannu gwybodaeth a hysbysiad - datblygu systemau model ar gyfer cofnodion plant a ddelir a llaw.	
Asesiad Iechyd, Cynllunio, Ymyriad ac Adolygu		
8.8	Mae cyflogi person dynodedig ar gyfer casglu a throsglwyddo data, yn arbennig ar gyfer olrhain lleoliadau allan o'r sir. Dylai'r swydd hon ffurfio rhan gyfannol o'r tîm plant dan ofal dynodedig.	Dylai hyn hefyd gynorthwyo datblygu systemau data unffurf rhwng ardaloedd.
8.20	Dylid datblygu a mabwysiadu'r cofnod iechyd dal-â-llaw fel dull sylfaenol o hysbysu gweithwyr iechyd a helpu plant/pobl ifanc a'u gofalwyr i gymryd perchnogaeth o'u hiechyd.	
Rôl magu plant		
	Mae pennod yr Adran Iechyd yn annigonol. Dylid gwneud cyfeiriad llawer llawnach at rôl gofalwyr maeth yn arbennig. Dylai cyfarwyddyd hefyd sôn am y Isafswm Safonau Gofal ar	

	gyfer Gofal Maeth, a rhoi cefnogaeth ar gyfer gofalwyr maeth yng nghyswllt - datblygu rôl briodol yng nghyswllt ymyrryd mewn materion iechyd - ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol i ddynodi sut y cefnogir gofalwyr maeth, gyda chyfeiriad penodol at faterion iechyd sensitif megis problemau iechyd meddwl, defnyddio cyffuriau ac alcohol, hunan-anaf. Medrai cynlluniau o'r fath ffurfio rhan o Strategaethau Fframwaith Plant yn ogystal ag adroddiadau Amddiffyn Plant/Proffesiynoliyn Dynodedig.	
9.12	Fel rhieni corfforaethol, dylai Awdurdodau Lleol ystyried opsiynau ar gyfer gwneud cyfleusterau chwaraeon a hamdden yn fwy hygyrch i blant a phobl ifanc dan ofal e.e. drwy basiau hamdden a ffioedd consesiwn	
Iechyd Meddwl		
12.9	Medrir sôn am Sir Ddinbych fel patrwm.	Mae Arbenigydd Plant dan Ofal CAMHS wedi dyfeisio system sy'n ymgorffori SDQ Goodman i asesiadau iechyd arferol. Mae'r data a gesglir yn y ffordd hon yn hwyluso ymyriad cynnar a hefyd yn rhoi dull defnyddiol o asesu yn gyflym yr anghenion iechyd tebygol ar gyfer y boblogaeth hon.
12.12	Fel rhan o weithredu 'Busnes Pawb' dylai adnoddau gael eu darparu ar gyfer datblygu gwaith ar adeiladu gwytnwch a hunan-barch drwy wasanaethau Haen 1. Dylid annog modelau newydd o	Mae Gwasanaethau CAMHS ar Haen 2 a 3 dan bwysau. Mae gan lawer o ardaloedd amserau aros hir ac mae amrywiad sylweddol mewn hygyrchedd gwasanaeth yn

	weithio megis amrywiadau ar y model 'Cynllun Pyramid' a gwaith stori bywyd.	ôl man preswyliaeth a diagnosis. Mae hwn yn faes blaenoriaeth ar gyfer buddsoddiad a llesiant plant dan ofal.

Paratowyd a golygwyd gan: Mike Bosley, Swyddog Datblygu, Plant yng Nghymru
Ffôn: 029 2034 2434 E-bost: mike.bosley@childreninwales.org.uk

ATODIADAU

"GOFALU AM IECHYD"

Cynhadledd aml-asiantaeth i Gymru

Dydd Iau 6 Tachwedd 2003, 10 am - 4 pm

Maes Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru, Llanelwedd

CEFNDIR:

Mae plant a phobl ifanc dan ofal ymysg y bobl ifanc a gaiff eu hallgau fwyaf yn gymdeithasol. Mae ganddynt fwy o anghenion iechyd na'u cyfoedion, eto maent yn llai tebygol o dderbyn gofal a thriniaeth iechyd neu eu cefnogi wrth wneud penderfyniadau sy'n hyrwyddo iechyd a lles. Mewn blynyddoedd diweddar, trawsffurfiwyd gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc y gofelir amdanynt yn arbennig yn dilyn Adroddiad Carlile ac argaeledd cyllid Plant yn Gyntaf. Yn awr, mae heriau newydd yn dod i'r amlwg yn cynnwys ad-drefnu'r gwasanaeth iechyd, ymchwiliad yr Arglwydd Laming i farwolaeth Victoria Climbie a newidiadau i strwythurau cynllunio strategol ledled Cymru.

NOD Y GYNHADLEDD YW:

* Amlygu iechyd plant 'dan ofal' yng Nghymru
* Dynodi cyd-destun a chyfeiriadau polisi presennol
* Rhannu arfer gorau
* Dynodi pynciau ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol

SIARADWYR GWADD:

* Jane Hutt, Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cynulliad Cymru
* Dr Sharon Hopkins, Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Gwladol
* Dr Alison Maddocks, Ymddiriedolaeth GIG Abertawe
* Gary Birch, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
* Ruth Talbot, Young Minds
* Helen Chambers, Biwrô Cenedlaethol y Plant
* Eirion Tomos, Rhwydwaith Feithrin

PWY DDYLAI FYNYCHU?

* Cyfarwyddwyr – Gwasanaethau Plant dan Ofal
* Aelodau a Swyddogion Arweiniol Byrddau Iechyd Lleol
* Swyddogion Iechyd Proffesiynol dynodedig a Phaediatregwyr Cymunedol
* Uwch Swyddogion Proffesiynol Gwasanaethau Cymdeithasol
* Gweithwyr yn y sector anstatudol
* Adfocatiaid a Chydlynwyr Hawliau Plant
* Arweinwyr Tîm iechyd meddwl

ARCHEBU LLE?

Llenwch y ffurflen archebu amgaeedig a'i dychwelyd i Plant yng Nghymru, 25 Plas Windsor, Caerdydd CF10 3BZ cyn gynted ag sydd modd i sicrhau y cedwir lle ar eich cyfer.

Mae'r gynhadledd hon yn rhan o'r brosiect 'Gofalu am Iechyd'
Plant yng Nghymru

"GOFALU AM IECHYD"

Dydd Iau 6 Tachwedd 2003, 10 am - 4 pm

Maes Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru, Llanelwedd

RHAGLEN

9.30am	Cofrestru a Lluniaeth
10.00am	Croeso a Chyflwyniad gan y Cadeirydd ***Mike Bosley, Prosiect Gofalu am Iechyd, Plant yng Nghymru***
10.30am	Y Cyd-destun Strategol Cenedlaethol **Jane Hutt, Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cynulliad Cymru**
10.50am	Y Cyd-destun Strategol – Partneriaethau Ieuenctid ***Gary Birch, Cyfarwyddydd Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen***
11.10am	**TE/COFFI**
11.30am	Y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Gwladol a Phlant dan Ofal ***Dr Sharon Hopkins, Cyfarwyddydd Rhanbarthol, Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol***
11.50am	Ansawdd Bywyd Iechyd-Gysylltiedig mewn Plant mewn Gofal Cyhoeddus ***Dr Alison Maddocks, Paediatreggydd Cymunedol Ymgynghorol, Ymddiriedolaeth GIG Abertawe***
12.10pm	Fy Mywyd yn y Bagiau Bin 'Na ***Theatr Cat's Paw***
1.00pm	**CINIO a chyfle i edrych ar gyflwyniadau poster**
2.00pm	Gweithdai: - Y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol – Hyrwyddo Iechyd Plant dan Ofal - ***Mike Lewis, Plant yng Nghymru*** - Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc dan Ofal - ***Ruth Talbot, Young Minds*** - Beth sy'n Gwneud Plant dan Ofal yn Iach? - ***Maraline Jones & Jane Dove, Ymddiriedolaeth Gofal Iechyd GIG Gwent*** - Cydweithio i Hybu Iechyd Plant Dan Ofal - ***Einir Tomos, Rhwydwaith Maeth Cymru, Angela Lewis & Joanne Hillman***
2.50pm	Ailadrodd sesiynau gweithdy
3.40pm	Sesiwn lawn – crynodeb o argymhellion gweithdy a sylwadau cloi y Cadeirydd
4.00pm	**CLOI A LLUNIAETH**